# Cofnodion Cyfarfod CCG 28.9.23

Neuadd Cymuned Glantwymyn

**19:541: Presennol**: Iwan Jones (Cadeirydd), Gareth Wyn Jones, Elwyn Vaughan, William Owen, Aled Griffiths, Gwenfair Rhys-Davies, Glyn Jones, Deryck Lewis, Rhodri Wigley, Sandra Evans (Clerc)

**19:542: Ymddiheuriadau**: Dafydd Evans, Paul Hughes, Huw Williams, Gareth Owen, Gwen Lloyd, Bedwyr Fychan

**19:543: Datganiadau o ddiddordeb**: Dim

**19:544: Cyflwyno a derbyn cofnodion CCG Awst 2023**

**19:544:1:** Mae angen cywiro Awdurdod Addysg Powys i Awdurdod Addysg Powys (19:538)

**19:44:2:** Ffordd Ready Mix ar ferw o hyd. Mae cais Abertwymyn i mewn ar gyfer busnes masnachol yn y sied.

**19:544:3:** Cyfarfod yng Nghemaes Cafwyd cyfarfod buddiol gydag Andrew Jones ac Awi Williams yn cyfarfod â'r Cynghorwyr Iwan Jones, Gareth Wyn Jones, Aled Griffiths, Deryck Williams a Bedwyr Fychan. Amlygwyd y problemau a bydd trafodaethau pellach gydag asiantaethau perthnasol megis Cyngor Sir Powys a Llywodraeth Cymru ynglyn â chael lle i barcio. Mae hwn yn bosibilrwydd gan fod Powys yn berchen ar dir cyfagos.

**19:544:4:** Lloches bysiau yn Llanwrin – Nid cwmni Barcud sy'n gyfrifol. Bydd William Owen yng ngofal y mater.

**19:545: Asesiadau Risg** Nodwyd y dylid addasu'r asesiad i ddweud bod y Cyngor yn cadw golwg cyson ar y mynwentydd ac yn dilyn cyfarfod diweddar yn Llanwrin bod lle ar gael yn y mynwentydd. Penderfynwyd gohirio'r drafodaeth tan y cyfarfod nesaf i roi iawn bwys i'r mater.

**19:546:** Ymweliad gan Hayley Thomas, Prif Weithredwr dros dro a Swyddog Atebol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Cafwyd trafodaeth am agor yr ysbyty newydd, pryderon y Cyngor a'r Fforwm Cleifion am gynnydd araf cydweithredu'r ddau fwrdd iechyd i gael gwasanaethau yn yr ysbyty megis 'pre ops' er mwyn defnyddio'r system a'r ysbyty i'w llawn botensial gan gynnwys y caffi croeso a sicrhau y bydd yr ystafelloedd yn cael eu neilltuo ar gyfer dibenion iechyd a lles yn ôl y bwriad. Pwysleisiwyd pa mor bwysig yw cynnal agwedd gymdeithasol yr ysbyty a bod atebolrwydd i Lywodraeth Cymru achos ariannu.

Nodwyd bod angen arhosfan a gwasanaeth bws yn agos at yr ysbyty.

Mynegwyd pryderon am ddiwylliant y feddygfa.

Tynnwyd sylw at anhawster cael apwyntiad a bod llawer o bobl yn mynd i Fronglais yn lle mynegwyd pryderon bod hyn yn i dro yn rhoi pwysau ychwanegol ar Ysbyty Bronglais.

Un o'r prif bryderon oedd nad oedd modd cwyno heb ganlyniadau anffafriol e.e. cleifion yn cael eu gwahardd o restr meddygon am eu bod wedi codi cwynion.

Nodwyd bod angen i unigolion nad oedd yn fodlon ar wasanaeth gysylltu'n uniongyrchol gyda chwynion penodol er mwyn gallu archwilio i'r cwynion.

Bydd y materion hyn a chynnwys llythyr blaenorol y Cyngor yn cael eu codi gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys gyda'r cyrff priodol a bydd Mrs. Hayley Thomas adrodd i'r Cyngor gyda'r ymateb.

**19:547: Awdit 22-23** Mae'r awdit gyda'r archwilydd mewnol.

**19:548: Cynllunio**

- Cyfeirnod: 23/1368/FUL Caniatâd ar gyfer codi ground mounted solar array Blaenplwyf Isaf Cwmlline,Machynlleth, SY20 9AD
- Cyfeirnod 23/1195/HH New residential annexe within curtilage of listed dwelling Pen Y Bont, Cemmaes Road, Machynlleth, SY20 8JY

Cynigiwyd y dylid cefnogi'r uchod gan Aled Griffiths a chytunodd pawb yn unfrydol.

**19:549: Materion Ariannol ac eitemau i'w talu:**

• Yswiriant gyda Hiscox, Gallagher Insurance Company Limited 28.9.23-27.9.24.

£708.08. Mae'r Cyngor yn disgwyl am bris newydd yn cynnwys eiddo ychwanegol. Penderfynwyd talu'r swm hwn a thalu'r gweddill wedyn er mwyn cadw'r polisi'n fyw.

• Osian Lewis (gwaith ychwanegol – symud diffib Llanwrin) £120.00 Invoice No. 1349 am symud cabinet diffib Llanwrin. Cynigiwyd y dylid talu hwn gan Aled Griffiths ac fe'i heiliwyd gan Gwenfair Rhys-Davies.

• Jon Anderson Arolwg ac adroddiad ar goed mynwent Darowen £480.00

(£400.00 +TAW £80.00)

• Nodi ad-daliad gan Whittingham Riddell Infois 20155897

- Cyflog y Clerc mis 4 (Gorffennaf) £362.80, Mis 5 (Awst) £363.00
- Costau'r Clerc £79.95 (Inc lliw printer £59.99 a phapur £23.96)
- Whittingham Riddell £ 113.40 Gwasanaethau cyflogres Mehefin -Awst 23 Rhif infois 197444

Cynigiwyd y dylid talu'r uchod gan Aled Griffiths ac fe'i heiliwyd gan Gareth Wyn Jones.

- Taliad gan Whittingham Riddell Infois 20155897. Codwyd gormod am wneud cyfrifon 21-22 felly bydd ad-daliad.

- Mandate a Bancio ar-lein – Mae Iwan Jones yn cael ei ychwanegu at y mandate. Cadarnhawyd y bydd Paul Hughes yn awdurdodi sieciau a delir ar-lein.

**19:550: Diffib Darowen a chyfarfod i'r cyhoedd -** Trafodwyd nifer o bosib. Penderfynwyd cysylltu â Chyngor Sir Powys i weld a fydden nhw'n fodlon gosod diffib ar bolyn lamp fel mae cynghorau eraill yn ei wneud.

Cynhelir cyfarfod i rannu gwybodaeth â'r cyhoedd. Penderfynwyd gofyn i Mr Thomas Hughes (GIG) roi cyflwyniad yn ystod hanner tymor.

**19:551: Tocio coed Darowen -** Gwahoddir ceisiadau am y gwaith gan Carwyn Lloyd, Mike Brown, Treescape a Jon Anderson

**19:552: Polisi Mynwentydd** Gohiriwyd y drafodaeth gan ei bod yn hwyrhau.

**19:553: Gohebiaeth:** Llythyr gan Gyngor Sir Powys am lwybr troed Comins Coch yn ceisio cefnogaeth a chymorth y Cyngor. Gofynnir am fwy o wybodaeth.

**19:554: Adroddiadau'r Cynghorwyr** Dim

**19:555: Ffyrdd a Phontydd** Dim

**19:556: Unrhyw Fater Arall**

Daeth y cyfarfod i ben am 9.55.

Cynhelir y cyfarfod nesaf 26.10.23

Ymddiriedolaeth y Melinau Gwynt 28.9.23

- Cais gan Bwyllgor Cneifio Bro Ddyfi - Penderfynwyd peidio â chyfrannu eleni gan fod y digwyddiad wedi bod ond gwahoddir cais y flwyddyn nesaf

- Pont Cwmlline – Mae angen siec newydd i Gyngor Sir Powys - £1335.00 gan fod y llall ar goll.
- Cytundeb edf -Mae'r disgwyl yn parhau i adran gyfreithiol edf gysylltu i gadarnhau'r polisi.